


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llyfryn Rheolau Cyffredinol y Grant Busnes i Ffermydd

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru –
Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru
2014-2020

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cynnwys

Gwybodaeth Bwysig .......... 2

Prif Bwyntiau .......... 3

Adran A – Cyflwyniad .......... 6

Adran B - Pwy sy'n gymwys am y Grant Busnes i Ffermydd .......... 8

Adran C - Gwneud Cais am y Grant Busnes i Ffermydd .......... 12

Adran D - Taliadau .......... 17

Adran E - Newidiadau i Reolau'r Cynllun .......... 21

Adran F – Archwiliadau a Chadw Cofnodion .......... 22

Adran G - Y Drefn Apelio a Chwyno .......... 23

Cysylltiadau .......... 28

Mae’r ddogfen hon ar gael hefyd yn y Saesneg / This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron 2018 WG35497 ISBN digidol: 978-1-78964-857-7

# Gwybodaeth Bwysig

- Rhaid ichi bellach Ddatgan Diddordeb yn y Grant Busnes i Ffermydd (FBG) a'i hawlio trwy RPW Ar-lein.

- Cewch Ddatgan Diddordeb mewn mwy nag un cyfnod ymgeisio, ond rhaid gwneud cais am o leiaf £3,000 bob tro. Trothwy uchaf y grant yw £12,000.

- Caiff contractau eu cynnig i gwsmeriaid sy'n cael eu dewis ar gyfer yr FBG a bydd yn rhaid iddynt dderbyn y cynnig o fewn 30 diwrnod ar ôl dyddiad cynnig y contract.

- I dderbyn neu wrthod cynnig o gontract FBG, rhaid ichi glicio'r 'botwm glas' ar dudalen hafan RPW Ar-lein.

- Peidiwch â phrynu eitemau tan ar ôl ichi dderbyn y contract. **Bydd yn rhaid ichi brynu'r eitemau a hawlio taliad o fewn 120 niwrnod ar ôl dyddiad cynnig y contract ichi.**

- I hawlio taliad FBG, rhaid ichi gyflwyno:

    - **hawliad am FBG trwy RPW ar-lein, gan ddefnyddio'r dudalen hawliadau am waith cyfalaf.**
    - **anfonebau ar gyfer pob eitem rydych yn hawlio arni**
    - **llythyr cyfrifydd i gadarnhau bod trosiant y busnes yn £1m neu lai**
    - **tystiolaeth bod yr eitemau sy'n cael eu prynu yn cyfateb i'r fanyleb a'u bod wedi dod i'r daliad**

**Roedd hyn yn broblem gyffredin yn y gorffennol gyda hawliadau anghyflawn yn cael eu cyflwyno. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr holl wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno erbyn y dyddiad terfyn ar gyfer hawlio.**

**Nid yw'n ofyn mwyach:**

- **I chi fynd i ddigwyddiad 'Ffermio ar gyfer y Dyfodol' fel rhan o broses cyfnod ymgeisio 8 yr FBG.**

## Prif Bwyntiau

- Mae'r ffurflen Datgan Diddordeb wedi'i datblygu'n ddigidol ac mae ar gael ichi ar ffurf electronig ar RPW Ar-lein. Rhaid cyflwyno'r Datganiad trwy RPW Ar-lein erbyn y dyddiadau cau a gyhoeddir.

- Os nad ydych wedi cofrestru gydag RPW Ar-lein eto, cyfeiriwch at wefan Llywodraeth Cymru i weld y canllaw sut i gofrestru neu ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

- I gael cyngor ar sut i Ddatgan Diddordeb ar-lein, ewch i wefan Llywodraeth Cymru.

- Nid oes gofyn ichi fynd mwyach i ddigwyddiad 'Ffermio ar gyfer y Dyfodol' fel rhan o broses cyfnod ymgeisio 8 yr FBG.

- Byddwn yn edrych a oes gennych hawliad cymwys o dan y Cynllun Taliad Sylfaenol neu Glastir Organig i gadarnhau'ch bod yn gynhyrchydd amaethyddol cynradd a bod gennych 3ha o dir amaethyddol cymwys yng Nghymru.

- Y grant mwyaf y gellir ei roi yw £12,000

- Y grant lleiaf y gellir ei roi yw £3,000.

- Gall y grant gyfrannu hyd at 40% o werth buddsoddiad cyfalaf mewn offer a pheiriannau fydd wedi cael eu disgrifio ymlaen llaw fel rhai fydd yn dod â mantais amlwg a mesuradwy i fenter y fferm.

  **Ar gyfer y rownd hon, mae eitemau wedi'u hychwanegu at y rhestr ac mae rhai eitemau wedi'u tynnu ohoni.**

  **Mae manylebau rhai eitemau wedi'u newid.**

  Fe welwch restr o'r eitemau cyfalaf cymwys yn Atodiad A a hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru.

- Cewch Ddatgan Diddordeb mewn swm sy'n fwy na'r terfyn o £12,000 ond ni chaiff mwy na'r grant mwyaf o £12,000 ei dalu ichi.

- Os gwnaethoch gais am yr FBG mewn unrhyw gyfnod ymgeisio o'r blaen ac i'ch Datganiad o Ddiddordeb gael ei ddewis ond ichi hawlio llai na'r uchafswm o £12,000, cewch wneud cais hefyd yn y cyfnod ymgeisio hwn neu'r nesaf. Y grant lleiaf y cewch

Ddatgan Diddordeb ynddo yw £3,000 neu fwy. Os gwnaethoch chi gais llwyddiannus o'r blaen, caiff cap ei roi ar gyfraniad y grant i unrhyw swm a all fod ar gael ichi sy'n llai na'r terfyn lleiaf o £3,000.

- Mae hwn yn gynllun gwahanol i'r Grant Busnes i Ffermydd – y Cynllun Gorchuddio Iardiau, felly ni fydd unrhyw Grant Busnes i Ffermydd – y Cynllun Gorchuddio Iardiau gewch chi yn cyfrif at uchafswm y grant FBG o £12,000. Yn yr un modd, ni fydd unrhyw daliad o dan yr FBG yn cyfrif at unrhyw gyfnod ymgeisio yn y dyfodol ar gyfer y Grant Busnes i Ffermydd – y Cynllun Gorchuddio Iardiau.
- Os caiff eich Datganiad o Ddiddordeb ei ddewis, bydd yn rhaid ichi brynu'r holl eitemau y byddwch wedi gwneud cais amdanyn nhw.
- Caiff eich hawliad ei wrthod neu bydd yn rhaid ichi dalu grant fydd wedi'i dalu ichi yn ôl os bydd unrhyw un o'r isod yn digwydd:
  - Eich bod wedi prynu eitem cyn bod y contract FBG yn cael ei dderbyn;
  - Nid ydych wedi prynu'r holl eitemau a restrir yn y contract,
  - Nad yw'r holl eitemau rydych yn hawlio arnyn nhw yn bresennol ar eich daliad yn ystod archwiliad.
- I brofi bod manyleb yr eitem rydych wedi'i chael yn gywir a bod yr eitem wedi cyrraedd eich daliad, pan fyddwch yn hawlio amdani, bydd gofyn ichi ddangos yr wybodaeth ganlynol:
  - Enw'r gweithgynhyrchydd, rhif y model, y rhif cyfresol ac ati os nad ydyn nhw ar yr anfoneb
  - Rhestr fanwl y fanyleb, os nad yw wedi'i chynnwys yn yr anfoneb
  - Disgrifiad o'r eitem a brynwyd a sut mae'n cyfateb i'r fanyleb, os nad yw hynny wedi'i nodi ar yr anfoneb.

  **Rhaid ichi hefyd gyflwyno ffotograff â stamp dyddiad ac amser arno o'r eitem yn ei lle fel tystiolaeth.**

Caiff eich hawliad ei wrthod **neu fe gewch eich cosbi** a bydd yn rhaid ichi dalu unrhyw grant sydd wedi'i dalu ichi yn ôl os ydych wedi cael y math anghywir o eitem neu os nad yw'r eitem yn cyfateb i'r fanyleb.

- Mae'r FBG yn rhan o raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020.

# Adran A – Cyflwyniad

Cynllun grant cyfalaf yw'r Grant Busnes i Ffermydd sydd ar gael i ffermwyr ym mhob rhan o Gymru.

Mae'r Canllaw hwn yn esbonio'r **Grant Busnes i Ffermydd (FBG)** a'r broses ar gyfer ymgeisio amdano. Darllenwch e'n ofalus. Os ydych yn credu y gallai'ch cynlluniau buddsoddi fod yn gymwys am grant a'ch bod am wneud cais am help o dan y cynllun hwn, darllenwch Adran C a'r llyfryn Sut i Lenwi.

Mae'r Grant Busnes i Ffermydd (FBG) yn elfen bwysig o raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Nod y grant yw helpu ffermwyr yng Nghymru i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol eu daliadau amaethyddol.

**Amcanion y Cynllun:**

- cynyddu'r buddsoddiad yn y fferm;
- gwella perfformiad technegol;
- cynhyrchu mwy am yr arian a werir; a
- defnyddio adnoddau'r fferm yn fwy effeithlon.

Mae'r FBG yn golygu buddsoddi cyfalaf mewn offer a pheiriannau fydd wedi cael eu disgrifio ymlaen llaw fel rhai fydd yn dod â mantais amlwg a mesuradwy i fenter y fferm. Mae'r eitemau cyfalaf wedi'u pennu ynghyd â'u cost safonol.

Bydd ceisiadau am yr FBG yn bodloni amcanion strategol a thematig Llywodraeth Cymru.

Bydd gweithgareddau o dan yr FBG yn mynd i'r afael **ag o leiaf un** o Feysydd Ffocws Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020:

**Maes Ffocws 2.** Gwneud pob math o amaethyddiaeth yn fwy cystadleuol a ffermydd yn fwy hyfyw:

2a) hwyluso’r gwaith o ailstrwythuro ffermydd sy’n wynebu problemau strwythurol mawr, yn enwedig ffermydd nad ydynt yn cyfrannu llawer at y farchnad, ffermydd sy’n canolbwyntio ar y farchnad mewn sector penodol a ffermydd sydd angen arallgyfeirio.

**Maes Ffocws 5.** Hyrwyddo’r defnydd effeithiol o adnoddau a chefnogi’r symudiad at economi carbon isel sy’n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd yn y sector amaeth, y sector bwyd a’r sector coedwigaeth;

5b) bod y diwydiant amaethyddol a'r diwydiant prosesu bwyd yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon

5d) lleihau allyriadau ocsid nitraidd a methan yn y sector amaethyddiaeth

Mae'r cynllun yn un dewisol. Bydd swm y grant a gynigir yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, a bydd bob amser **y swm lleiaf sydd ei angen** i ganiatáu i'r buddsoddiadau fynd rhagddo.

Mae'r eitemau sydd ar gael trwy'r cynllun yn cwmpasu'r pum thema ganlynol:

- Iechyd, Perfformiad a Geneteg Anifeiliaid
- Rheoli Cnydau
- Defnyddio Adnoddau'n Effeithlon
- Arbed Ynni
- TGCh

Mae'r Grant Busnes i Ffermydd wedi'i gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd. Caiff unrhyw newidiadau eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, GWLAD Ar-lein a phan welwn fod angen, byddwn yn cysylltu'n uniongyrchol â chi.

Ariennir y Grant Busnes i Ffermydd gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd i ffurfio rhan o raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020.

Rheolir y Grant Busnes i Ffermydd gan Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014 rhif 3222(Cy327); Rheoliadau'r Cyngor (UE) rhif 1305/2013, 1303/2013 ac (UE) rhif 1306/2013, Rheoliadau Gweithredu (UE) y Comisiwn rhif 808/2014 a rhif (UE) 809/2014 a Rheoliadau Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 640/2014 ac 807/2014 (fel y gallent gael eu newid o dro i dro). Cewch gopïau o'r Rheoliadau hyn ar wefan EUR-Lex (eur-lex.europa.eu) neu gallwch ofyn i Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru am gopi.

## Adran B - Pwy sy'n gymwys am y Grant Busnes i Ffermydd

### I fod yn gymwys i wneud cais:

- Byddwch wedi'ch cofrestru gyda Llywodraeth Cymru ac wedi cael Cyfeirnod Cwsmer (CRN). Cyfeiriwch at wefan Llywodraeth Cymru i weld y canllaw Sut i Gofrestru neu ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

- Hefyd:

    - byddwch yn gynhyrchydd cynnyrch amaethyddol cynradd

    - bydd gennych 3ha o dir amaethyddol cymwys sydd wedi'i gofrestru gyda'r RPW yng Nghymru, **neu**

    - byddwch yn gweithio mwy na 550 o oriau llafur safonol

- Byddwn yn edrych a oes gennych hawliad cymwys o dan y Cynllun Taliad Sylfaenol neu Glastir Organig i gadarnhau'ch bod yn gynhyrchydd amaethyddol cynradd a bod gennych 3ha o dir amaethyddol cymwys yng Nghymru.

- Os nad ydych wedi hawlio o dan y naill gynllun uchod na'r llall neu os nad ydym yn gallu cadarnhau'r tir, rhaid ichi gyflwyno tystiolaeth ddogfennol **gyda'ch Datganiad o Diddordeb** i gadarnhau'ch bod yn gynhyrchydd amaethyddol cynradd a bod gennych naill ai 3ha o dir amaethyddol neu'ch bod yn gweithio 550 o oriau llafur safonol.

    - bydd gan eich busnes drosiant o £1m neu lai **(er mwyn cael taliad FBG, rhaid ichi gyflwyno, wrth hawlio taliad, lythyr cyfrifydd i gadarnhau trosiant eich busnes yn y flwyddyn ariannol ddiweddaraf y ceir cyfrifon ar ei chyfer).**

- Mae croeso i amrywiaeth o fusnesau sy'n cynhyrchu **cynhyrchion amaethyddol** cynradd Ddatgan Diddordeb fel

    - masnachwyr unigol;
    - mudiadau gwirfoddol
    - cwmnïau cyfyngedig preifat a chyhoeddus (Busnesau Bach a Chanolig a Mentrau Mawr);

  - busnesau fferm a chwmnïau cydweithredol
  - busnesau newydd, gan gynnwys busnesau sy'n dechrau.

- Daw cynhyrchion amaethyddol cynradd o'r sectorau canlynol:

  - cnydau âr
  - eidion
  - llaeth
  - geifr
  - garddwriaeth (gan gynnwys hydroponeg ac acwaponeg)
  - moch
  - dofednod
  - defaid
  - gwenyna.

## Nid ydych yn gymwys os:

- ydych yn gwsmer sy'n cadw ceffylau (gan gynnwys pori ceffylau)
- ydych yn gwsmer Coedwigaeth (gan gynnwys pobl sy'n berchen ar goetir yn unig)
- oes gan eich busnes drosiant o fwy na £1m. Cyfanswm y trosiant yw holl incwm y busnes sy'n mynd trwy un cyfrif busnes; gall gynnwys incwm amaethyddol a'r holl incwm o ddaw o weithgarwch arallgyfeirio anamaethyddol. Peidiwch ag ychwanegu incwm busnesau ar wahân at y cyfanswm.
- ydych yn grŵp o ffermwyr (gan gynnwys Cymdeithasau Cynhyrchwyr)
  - ond os ydy dau ddaliad amaethyddol neu fwy'n cael eu rheoli fel uned unigol neu fod un person yn berchen arnynt neu eu bod i ryw raddau yn cael eu rheoli ar y cyd, bod ganddynt gyfrifon ariannol cyffredin, da byw cyffredin, peiriannau a/neu storfeydd bwydo cyffredin, gallwch eu cyfrif fel un busnes.

## Gweithgareddau

### Gweithgareddau Cymwys

Mae'r FBG yn cefnogi buddsoddiadau gweladwy ar gyfer cynhyrchu'r cynhyrchion amaethyddol a restrir yn Atodiad 1 Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (TFEU) neu gotwm ond nid cynnyrch pysgodfeydd.

### Gweithgareddau Anghymwys

Peidiwch â defnyddio eitemau a brynwyd trwy'r FBG i gynnal gweithgareddau contractio amaethyddol.

## Costau

### Costau Cymwys

Dim ond eitemau a restrir yn y Rhestr o Eitemau Cyfalaf Cymwys yn Atodiad A fydd yn gallu cael taliad o dan yr FBG.

Rhaid i'r eitemau hynny fodloni'r amodau **lleiaf** a ddisgrifir neu ragori arnynt.

### Costau Anghymwys

- Offer ail law
- Eitemau traul (eitemau sy'n debygol o gael eu defnyddio i fyny neu ddarfod e.e. ni fyddai moddion i'w rhoi yn y Dryll Drensio yn gymwys)

### Cyfradd a Throthwy Uchaf y Grant

Y grant fydd cyfanswm cyfraniad y sector cyhoeddus at y prosiect buddsoddi, a bydd yn cynnwys: arian oddi wrth yr UE; cyllid ar y cyd gyda'r UE oddi wrth Lywodraeth Cymru; arian oddi wrth adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth, cyrff cyhoeddus anadrannol ac awdurdodau lleol; arian oddi wrth gyrff a reolir gan y llywodraeth fel y Gwasanaeth Busnesau Bach a'r Loteri Genedlaethol; ac arian o drethi paragyllidol (ardollau).

Os ceir arian cyhoeddus o'r UE neu'r DU i helpu â chostau prosiect, tynnir swm cyfatebol o'r Grant Busnes i Ffermydd.

Y grant mwyaf y gellir ei roi yw **£12,000** os yw hwn dal i fod ar gael ichi**.**

Y grant lleiaf y gellir ei roi yw **£3,000** os yw hwn dal i fod ar gael ichi.

Gall y grant gyfrannu hyd at 40% o werth buddsoddiad cyfalaf mewn offer a pheiriannau fydd wedi cael eu disgrifio ymlaen llaw fel rhai fydd yn dod â mantais amlwg a mesuradwy i fenter y fferm.

Cewch Ddatgan Diddordeb mewn swm sy'n fwy na'r terfyn o £12,000 ond ni chaiff mwy na'r grant mwyaf ei dalu ichi. Os caiff eich Datganiad o Ddiddordeb ei dderbyn, ni chewch hawlio mwy na'r grant mwyaf o £12,000.

Os gwnaethoch gais am yr FBG mewn unrhyw gyfnod ymgeisio o'r blaen a bod eich Datganiad i Ddiddordeb wedi'i ddewis ond ichi hawlio llai na'r uchafswm o £12,000, cewch wneud cais hefyd yn y cyfnod ymgeisio hwn neu'r nesaf. Rhaid i'r grant rydych yn Datgan Diddordeb ynddo fod yn werth £3,000 neu fwy.

Os ydych wedi gwneud cais am FBG mewn cyfnod ymgeisio yn y gorffennol ac i'ch Datganiad o Ddiddordeb gael ei ddewis, ac yn wrth £9000 neu'n fwy ond yn llai na'r uchafswm o £12,000, rhaid ichi ddewis eitem ag iddo werth grant o £3000 neu fwy a bydd yr eitem hon yn cael ei ariannu'n rhannol.

Mae hwn yn gynllun gwahanol i'r Grant Busnes i Ffermydd – y Cynllun Gorchuddio Iardiau, felly ni fydd unrhyw Grant Busnes i Ffermydd – y Cynllun Gorchuddio Iardiau

gewch chi yn cyfrif at uchafswm y grant FBG o £12,000.  Yn yr un modd, ni fydd unrhyw daliad o dan yr FBG yn cyfrif at unrhyw gyfnod ymgeisio yn y dyfodol ar gyfer y Grant Busnes i Ffermydd – y Cynllun Gorchuddio Iardiau.

Os ydych wedi derbyn contract FBG yn y cyfnod ymgeisio hwn neu unrhyw gyfnod blaenorol ond nad ydych wedi gwneud hawliad dilys, caiff gwerth y contract y byddwch yn ei dderbyn ei gwtogi o'r uchafswm o £12,000.

E.e. Datgan Diddordeb yng nghyfnod ymgeisio 5 a chynnig contract ichi. Cyfanswm gwerth y contract yw £8,000.  Rydych yn derbyn y contract, ond nid ydych yn gwneud hawliad dilys.  Y cyfanswm sydd ar gael ar gyfer cyfnod ymgeisio 8 neu gyfnod wedi hynny yw £4,000.

# Adran C - Gwneud Cais am y Grant Busnes i Ffermydd

## Cyflwyno ffurflen Datgan Diddordeb

## RPW Ar-lein

Gallwch lenwi Datganiad o Ddiddordeb yn y Grant Busnes i Ffermydd ar Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein. Os oes gennych Gyfeirnod Cwsmer (CRN) eisoes, fe ddylech fod wedi cael llythyr gyda'ch Cod Defnyddio arno ichi allu agor cyfrif. Os ydych wedi'i golli, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 (Llun – Iau 8:30am – 5.00pm, Gwener 8:30am – 4.30pm) a rhoi'ch CRN i'r cysylltydd.  Caiff Cod Defnyddio newydd ei anfon atoch.

I gofrestru manylion eich busnes am y tro cyntaf, rhaid ichi lenwi'r ffurflen gofrestru ar-lein. Darllenwch y canllaw sut i gofrestru i gael rhagor o fanylion. Mae mwyafrif llethol y newidiadau i'r manylion busnes yn gallu cael eu gwneud ar-lein. Fodd bynnag, efallai y bydd Llywodraeth Cymru am ragor o fanylion os yw'r newidiadau'n fmawr. Cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.

Ar ôl ichi gofrestru, gallwch fynd yn syth i'ch cyfrif RPW Ar-lein. Fe welwch ffurflen Datgan Diddordeb y Grant Busnes i Ffermydd yn yr adran Ceisiadau a Hawliadau

Os oes gennych asiant yn gweithio ar eich rhan, bydd gofyn iddo gofrestru fel asiant ar RPW Ar-lein.  Os nad yw wedi gwneud eto, dylai lenwi copi ar-lein neu gopi papur o'r ffurflen Manylion Asiant / Undeb Ffermwyr (Cymru) ar unwaith. Mae copi o'r ffurflen ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Ar ôl i'r ffurflen ein cyrraedd, byddwn yn anfon CRN Asiant atoch a Chod Defnyddio RPW Ar-lein. Bydd gofyn llenwi Ffurflen Awdurdodi Cymdeithasau hefyd  a gallwch wneud hynny ar ôl ichi gofrestru gyda RPW Ar-lein. Cyfeiriwch at ein canllaw Sut i Gofrestru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gofrestru ar RPW Ar-lein neu am Ddatgan Diddordeb, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.  Byddan nhw'n gallu'ch cynghori a rhoi gwybod ichi ble gallwch fynd am help digidol.

Cewch fwy o fanylion am RPW Ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Sgorio'ch Datganiad o Ddiddordeb**

Mae pob eitem cyfalaf wedi cael sgôr gan asesydd annibynnol ar sail pedwar maen prawf:

a. Iechyd a Lles Anifeiliaid
b. Iechyd a Diogelwch
c. Effeithlonrwydd technegol, a
d. Defnyddio adnoddau'n effeithlon

Dangosir y sgôr yn Atodiad A - Rhestr o'r Eitemau Cyfalaf Cymwys wrth bob eitem unigol ac gallwch ei weld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae gofyn i ymgeiswyr ddewis eu heitemau cyfalaf hyd at werth y grant mwyaf o £12,000, neu un eitem ychwanegol sy'n fwy na hyn. Bydd y system yn cyfrif sgôr yr ymgeisydd yn awtomatig trwy gyfrif nifer y pwyntiau sydd wrth bob eitem unigol a chyfrif cyfartaledd sgoriau'r eitemau unigol y gofynnwyd amdanynt*.* Caiff y sgôr ei rhannu gan gyfanswm y grant y gofynnwyd amdano. Ar gyfer y prosiectau sydd â'r sgôr uchaf sy'n uwch na'r sgôr drothwy a bod y gyllideb yn ddigonol, cynigir contractau iddyn nhw.

Pwrpas y broses sgorio yw i Lywodraeth Cymru allu rhoi'r Datganiadau o Ddiddordeb yn eu trefn yn ôl faint o arian sydd ar gael ym mhob cyfnod ymgeisio.

Ar ôl Datgan eich Diddordeb, chewch chi ddim newid yr eitemau rydych wedi'u dewis i'w prynu. Os ydych wedi Datgan Diddordeb a'ch bod am newid eitem, cyn belled nad yw'r cyfnod Datgan Diddordeb wedi cau, gallwch dynnu'ch Datganiad gwreiddiol yn ôl a chyflwyno un newydd yn ei le sy'n rhestru'r eitemau cywir.

## Y Broses Ddewis

Un o ofynion y Comisiwn Ewropeaidd yw na ddylai prosiectau Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 gael eu dewis yn ôl y cyntaf i'r felin. Er mwyn bodloni hynny, y bwriad yw y bydd cynlluniau Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru − Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 yn agor a chau ar gyfer ceisiadau bob hyn a hyn drwy gydol oes y rhaglen, gan ddibynnu ar y dyraniadau ariannol a fydd ar gael i'r rhaglen.

Fel rhan o broses ddewis y Grant Busnes i Ffermydd, byddwn yn asesu pob prosiect Gwaith Cyfalaf y bydd busnesau ffermio yn Datgan Diddordeb i'w cynnal. Caiff sgôr ei roi i bob Datganiad o Ddiddordeb ar sail ei allu i sicrhau canlyniadau sy'n bodloni amcanion yr FBG.

Caiff y Datganiadau eu sgorio a'u rhoi yn eu trefn yn ôl y meini prawf.

Caiff y Datganiadau o Ddiddordeb eu dewis yn y drefn honno nes y bydd yr holl arian sydd ar gael yn y rownd honno wedi cael ei rannu.

Y gyllideb sydd ar gael ar gyfer Cyfnod Ymgeisio 8 y Grant Busnes i Ffermydd yw £5.0m.

Cewch wybod a gafodd eich Datganiad o Ddiddordeb ei ddewis neu beidio trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein.

## Dewis Datganiadau o Ddiddordeb Llwyddiannus

### Ymgeiswyr Llwyddiannus

Os caiff eich Datganiad o Ddiddordeb ei ddewis, caiff contract ei gynnig ichi trwy'ch cyfrif RPW ar-lein.

Rhaid ichi brynu'r **holl** eitemau sydd ar eich contract a'u hawlio trwy'ch cyfrif RPW ar-lein o fewn **120 o ddyddiau calendr** ar ôl dyddiad cynnig y contract ichi.

Rhaid ichi dderbyn y contract o fewn **30 niwrnod calendr** ar ôl dyddiad cynnig y contract ichi drwy bwyso'r botwm glas ar dudalen hafan RPW Ar-lein. Ni chewch brynu'r eitemau yn eich contract nes eich bod wedi derbyn eich contract.

Os na fyddwch wedi derbyn eich contract o fewn **30 niwrnod calendr**, caiff y cynnig ei dynnu'n ôl.

Caiff manylion llawn pryd y bydd yn rhaid ichi dderbyn y contract a phryd y bydd yn rhaid ichi brynu'r eitemau a'u hawlio eu nodi yn eich contract.

### Amodau'r Grant

Daw'r Grant Busnes i Ffermydd o dan amrywiaeth o ddeddfwriaeth. Rhaid i Lywodraeth Cymru a'r ymgeisydd/derbynnydd weithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth honno.

I gael y Grant Busnes i Ffermydd, rhaid bodloni telerau ac amodau, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu disgrifio isod. **Gallai methu â bodloni telerau ac amodau'r dyfarniad arwain at ganslo'ch dyfarniad a/neu ofyn ichi dalu'n ôl yr arian sydd eisoes wedi'i dalu i chi, neu leihau cyfanswm y grant y byddwn yn ei dalu ichi**.

### Amodau:

Gwneir y dyfarniad ar sail datganiadau rydych chi neu'ch cynrychiolwyr wedi'u gwneud ar y ffurflen gais a'r ffurflen hawlio ac yn yr ohebiaeth a gafwyd wedi hynny.

**Mae'n drosedd gwneud datganiadau anwir neu gamarweiniol.**

Byddwch wedi prynu'r offer a chysylltu ag RPW trwy RPW Ar-lein neu drwy'r post ddim mwy na 120 niwrnod calendr ar ôl dyddiad cynnig y contract.

***Os na fyddwch wedi cysylltu ag RPW erbyn hynny, caiff y cynnig grant ei wrthod.***

Rhaid ichi gadw at unrhyw ymrwymiadau cyfreithiol a osodir arnoch o dan gyfraith yr UE neu'r DU, gan gynnwys deddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid neu blanhigion.

Ni chewch newid prosiect, gan gynnwys lleoliad y gweithgarwch, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw Llywodraeth Cymru.

Bydd yn rhaid ichi gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru i gael gwared ar, trosglwyddo a gwerthu unrhyw offer a brynir gyda chymorth y grant am bum mlynedd o ddyddiad cymeradwyo'r grant.  Bydd yn rhaid ichi dalu'r grant yn ôl yn llawn.

Nid yw offer ail law yn gymwys am FBG.

Nid yw nwyddau traul yn gymwys am FBG.

Mae'n rhaid i'r ymgeisydd gydymffurfio â'r rheolau ar wariant cymwys yn unol â'r manylion yn y nodyn yng Nghanllaw'r Cynllun.

Mae'n rhaid i chi gadarnhau nad oes unrhyw rai o'r eitemau sy'n rhan o'r cais yn eitemau a brynwyd yn lle eitemau eraill o dan hawliad yswiriant.

Mae'n rhaid i chi roi cadarnhad nad ydych wedi gwneud cais am unrhyw arian cyhoeddus arall (o ffynonellau yn yr UE nac yn y DU).

Bydd yn rhaid ichi gadw cofnodion ynghylch ceisio a hawlio'r grant, gan gynnwys anfonebau gwreiddiol a dogfennau cysylltiedig eraill, am o leiaf saith mlynedd ar ôl y dyddiad cymeradwyo.

Mae'n rhaid i chi ganiatáu i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiwn Archwilio a Llys Archwilwyr Ewrop archwilio'r prosiect.  Os gofynnir, rhaid i chi roi gwybodaeth iddynt a/neu adael iddynt weld y dogfennau gwreiddiol sy'n ymwneud â'r prosiect.

Mae'r wybodaeth a roddir yn y cais ac mewn dogfennau cysylltiedig yn gorfod bodloni gofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Mae'n rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd a roddir i'r prosiect gyfeirio at y rhan y mae'r Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru wedi'i chwarae wrth ei noddi.

**Dylech fod yn ymwybodol, os byddwch yn llwyddiannus, fod Llywodraeth Cymru a'r Gymuned Ewropeaidd yn cadw'r hawl i gyhoeddi enw'ch busnes neu gwmni, swm y grant a ddyfarnwyd i chi a chrynodeb o'ch prosiect.**

# Tynnu Datganiad o Ddiddordeb yn ôl

**Unwaith y mae busnes wedi Datgan Diddordeb yn FBG, a oes modd ei dynnu'n ôl?**

A. **Oes, pan mae'r cyfnod Datgan Diddordeb ar agor:**

Gallwch dynnu'ch cais yn ôl trwy'r sgrin "Fy Negeseuon" yn eich cyfrif RPW Ar-lein; cewch gyflwyno cais arall cyn i'r cyfnod ymgeisio ddod i ben.

B. **Oes, ar ôl i gyfnod Datgan Diddordeb ddod i ben OND cyn i'r busnes gael y contract**

Gallwch dynnu'ch cais yn ôl trwy'r sgrin "Fy Negeseuon" yn eich cyfrif RPW Ar-lein.

Os ydych wedi dewis yr eitemau anghywir neu wedi newid eich meddwl am yr eitemau rydych wedi'u dewis neu os ydych heb gynnwys yr eitemau roeddech am eu dewis, rhaid ichi dynnu'r cais yn ôl a gwneud cais arall yn y rownd nesaf.

Cofiwch fod y broses yn un gystadleuol ac nad oes sicrwydd y byddwch yn llwyddiannus y tro nesaf.

C. **Pan fydd y busnes wedi'i ddewis ac wedi derbyn contract FBG, a oes modd newid yr eitemau?**

Nac oes. Ni chewch dynnu Datganiad o Ddiddordeb yn ôl ar ôl cynnig contract i chi.

Ni chewch newid yr eitemau sydd ar y contract ar y pwynt hwn. Cewch brynu fersiwn well o'r un eitem, ond dyna'r unig fath o newid a ganiateir.

# Adran D - Taliadau

## Hawliadau

I hawlio'r Grant Busnes i Ffermydd, rhaid gwneud hynny trwy'ch cyfrif RPW ar-lein gan ddefnyddio’r dudalen hawliadau am waith cyfalaf; chewch chi ddim mo'ch talu nes bod eich hawliad wedi cael ei ddilysu'n llwyddiannus.

Er mwyn inni allu talu'r Grant Busnes i Ffermydd ichi, rhaid ichi fod wedi gwneud y canlynol:

- Byddwch wedi derbyn contract y Grant Busnes i Ffermydd o fewn 30 niwrnod calendr ar ôl dyddiad ei gynnig a byddwch yn cadw at yr holl ofynion.
- Dim ond yr eitemau sydd wedi'u rhestru yn eich contract y byddwch yn eu prynu, a hynny dim ond ar ôl ichi dderbyn y cynnig o gontract.
- Gofalwch eich bod wedi prynu'r **holl** eitemau sydd wedi'u rhestru ar eich contract.
- Gofalwch fod yr holl eitemau yn bresennol ar eich daliad pan fyddwch yn hawlio amdanynt,
- Cyflwynwch yr hawliad trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein o fewn 120 niwrnod.
- Cyflwynwch anfoneb ar gyfer pob eitem rydych yn hawlio arni
- Cyflwynwch lythyr **cyfrifydd** i gadarnhau bod trosiant y busnes yn £1m neu lai

**Ni fydd hawliad yn ddilys oni bai’ch bod yn ei gyflwyno trwy’r dudalen Hawlio Gwaith Cyfalaf a nes bod anfonebau wedi’u cyflwyno hefyd ar gyfer yr holl eitemau rydych yn hawlio amdanynt a llythyr cyfrifydd.**

## Dogfennau Ategol

**Pwysig:** Rhaid ichi gyflwyno anfoneb ar gyfer pob eitem sydd yn eich contract.

Rhaid ichi gyflwyno llythyr **cyfrifydd** hefyd, i gadarnhau bod trosiant eich busnes yn £1m neu lai.

Gallwch gyflwyno'r anfonebau trwy eu sganio a'u hanfon trwy "Fy Negeseuon" yn eich cyfrif RPW Ar-lein neu drwy roi'r anfonebau gwreiddiol i'ch Swyddfa Ranbarthol.

- I brofi bod manyleb yr eitem rydych wedi'i chael yn gywir a bod yr eitem wedi cyrraedd eich daliad, pan fyddwch yn hawlio amdani, bydd gofyn ichi ddangos yr wybodaeth ganlynol lle mae'n briodol
    - Enw'r gweithgynhyrchydd, rhif y model, y rhif cyfresol ac ati os nad ydyn nhw ar yr anfoneb
    - Rhestr fanwl y fanyleb, os nad yw wedi'i chynnwys yn yr anfoneb
    - Disgrifiad o'r eitem a brynwyd a sut mae'n cyfateb i'r fanyleb, os nad yw hynny wedi'i nodi ar yr anfoneb.

**Gallwchhefyd gyflwyno ffotograff â stamp dyddiad ac amser arno o'r eitem yn ei lle fel tystiolaeth.**

Caiff eich hawliad ei wrthod **neu fe gewch eich cosbi** a bydd yn rhaid ichi dalu unrhyw grant sydd wedi'i dalu ichi yn ôl os ydych wedi cael y math anghywir o eitem neu os nad yw'n cyfateb i'r fanyleb.

**Eitemau heb gyrraedd**

Os ydy'ch cyflenwr/cynhyrchydd wedi rhoi gwybod ichi na fydd modd iddynt gael yr eitemau i chi erbyn y dyddiad hawlio, bydd gofyn ichi gysylltu â ni trwy "Fy Negeseuon" ar eich cyfrif RPW Ar-lein i esbonio'r broblem ini.

Bydd gofyn ichi ofyn am estyniad i'r amod hawlio o 120 o ddyddiau calendr a rhoi prawf eich bod wedi archebu'r eitem a thystiolaeth ddogfennol gan eich cyflenwr i gadarnhau nad yw'n gallu dod â'r eitem ichi.  Rhaid cyflwyno'r wybodaeth cyn y terfyn hawlio o 120 o ddyddiau a dangos eich bod wedi ceisio cael yr eitem i'ch daliad erbyn y dyddiad cau gwreiddiol.

## Cam hawlio a chosbau

Eich cyfrifoldeb chi yw gofalu'ch bod yn hawlio taliad ar gyfer yr offer cymwys sydd ar y rhestr gymeradwy yn unig.

Byddwch wedi prynu'r holl eitemau cymeradwy **ar ôl ichi dderbyn y contract gafodd ei gynnig ichi.**

Byddwch wedi cam hawlio a chewch eich cosbi os:

- ydych yn prynu eitemau cyn ichi dderbyn contract yr FBG;

- nad ydych wedi prynu'r holl eitemau yn y contract;
- nad yw’r eitemau ar eich daliad yn ystod archwiliad.
- ydych yn prynu eitemau o fath anghywir neu sydd ddim yn cyfateb i’r fanyleb.

**Os nad yw’r holl eitemau ar eich contract yn cyfateb i’w manylebau, byddwn yn gwrthod eich hawliad cyfan ac os oes grant wedi'i dalu ichi, byddwn yn mynnu'ch bod yn ei dalu yn ôl.**

Os gwelwn eich bod wedi prynu eitemau nad ydyn nhw’n cyfateb i’w manylebau, caiff y taliad ei leihau i swm yr eitemau sydd yn cyfateb i’w manylebau.

Os gwelir bod yr eitemau sy’n anghymwys yn werth mwy na 10% o’r costau cymwys, caiff swm sy’n cyfateb i werth yr eitemau anghymwys ei dynnu o’ch taliad.

Er enghraifft:

Mae cwsmer yn hawlio’r eitemau FBG canlynol, a chyfanswm gwerth y grant yw £6,118.

| Eitem FBG | Nifer | Gwerth y Grant |
|---|---|---|
| Craets gwasgu gwartheg sy’n gweithio drwy system hydrolig. | 1 | £3,020 |
| Baddonau traed awtomatig | 1 | £2,032 |
| Gât i ddal buwch sy'n bwrw llo | 1 | £184 |
| Offer trin defaid | 1 | £882 |
| **Total** | | **£6,118** |

Yn yr enghraifft hon, nid yw’r gât i ddal buwch sy'n bwrw lloi sy’n werth £184 yn cyfateb i’r fanyleb.  Y cyfanswm a hawlir yw £6,118 a gwerth yr eitem anghymwys yw £184. Gan fod yr eitem anghymwys yn werth llai na 10%, y taliad a delir yw £5,934.

Ond, beth os nad yw’r offer trin defaid, sy’n werth £882, yn cyfateb i’r fanyleb.  Y cyfanswm a hawlir yw £6,118 a gwerth yr eitem anghymwys yw £882. Tynnir y swm o £882 o'r hawliad gwreiddiol o £6,118, gan adael swm sy'n weddill o £5,236. Gan fod yr eitem anghymwys yn werth mwy na 10%, caiff swm sy’n cyfateb i werth yr eitem anghymwys, £882, ei dynnu o weddill y taliad a’r cyfanswm a delir felly yw £4,354.

## Troseddau

Mae Rheoliad 13 o Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014 (Rhif 3222 (Cy.327)) yn pennu troseddau a chosbau mewn perthynas ag elfennau penodol o gyllid datblygu gwledig. Mae'r Rheoliad hwnnw a'r troseddau hynny yn berthnasol i'r Cynllun Grant Busnes i Ffermydd. Mae troseddau'n cynnwys darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, yn fwriadol neu'n fyrbwyll, mewn perthynas â chyllid datblygu gwledig; rhwystro arolygydd neu swyddog; a gwrthod darparu gwybodaeth ar gais.

## Monitro Prosiectau

Mae'n ofyn gan y Comisiwn Ewropeaidd fod yr holl grantiau yn cael eu monitro a bod eu heffaith ar y busnes yn cael ei mesur.

Bydd yn ofynnol bod y cyfarpar a brynwyd gyda chymorth y Grant Busnes i Ffermydd yn cael eu cadw yn y fan a'r lle, yn weithredol ac mewn cyflwr da, ac yn cael eu defnyddio at yr un diben ag a amlinellir yn y cais gwreiddiol, am bum mlynedd o ddyddiad y penderfyniad.

Mae'n rhaid i chi ganiatáu i swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd, neu eu cynrychiolwyr, archwilio'r cyfarpar ar unrhyw adeg resymol o fewn y cyfnod hwnnw o bum mlynedd.

# Adran E - Newidiadau i Reolau'r Cynllun

## Newidiadau i'r Ddeddfwriaeth (gan gynnwys Dehongliadau Newydd)

Mae Rheoliadau Ewropeaidd yn gallu newid o dro i dro a bydd gofyn ichi gadw at unrhyw newidiadau ar ôl i Lywodraeth Cymru roi gwybod ichi amdanynt.

## Newidiadau i Reolau'r Cynllun

Weithiau bydd angen newid eich contract, a hynny am nifer o resymau. Er enghraifft, efallai y bydd angen diweddaru'r amodau rheoli iddyn nhw gyd-fynd â'r wybodaeth wyddonol ddiweddaraf, newid rheolau'r cynllun i gyd-fynd â newidiadau yn rhaglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 neu gyfraddau talu newydd. Byddwn yn cyhoeddi unrhyw newidiadau ar wefan Llywodraeth Cymru neu os gwelwn fod angen, byddwn yn ysgrifennu atoch.

## Adran F – Archwiliadau a Chadw Cofnodion

Mae Llywodraeth Cymru yn gorfod gwneud yn siŵr fod pawb sy'n cymryd rhan yn cadw at reolau'r Grant Busnes i Ffermydd. Bydd archwiliadau'n cynnwys archwiliadau fferm.

Gallem ddewis archwilio'ch cais cyn i'r taliad gael ei wneud neu gallai gael ei archwilio ar ôl inni'ch talu.

Bydd holl fanylion eich Datganiad o Ddiddordeb, manylion eich hawliad a'r datganiadau a wnaethoch wrth Ddatgan eich Diddordeb a chyflwyno'ch hawliad i gyd yn cael eu harchwilio. Bydd hynny'n cynnwys trosiant eich busnes, bod yr eitemau i gyd ar eich daliad adeg yr archwiliad, dyddiad prynu'r cyfarpar, i bwy y rhoddwyd yr anfoneb neu'r anfonebau a manylebau'r cyfarpar.

### Archwiliadau Fferm

Bydd Llywodraeth Cymru a'r cyrff rheoli arbenigol yn gwneud eu gorau i darfu cyn lleied â phosib arnoch wrth archwilio'ch fferm ond weithiau bydd yn rhaid cynnal ambell archwiliad heb rybudd. Mae hi'n bosib y bydd gofyn inni gynnal archwiliadau fwy nag unwaith y flwyddyn.

Os byddwch yn gwrthod gadael i archwiliad gael ei gynnal neu'n rhwystro archwilydd neu'n gwrthod rhoi help rhesymol iddo, fe gollwch eich taliad a gallech gael eich erlyn.

### Cadw cofnodion

Bydd angen ichi gadw'r holl gofnodion a gwybodaeth sydd eu hangen arnoch i brofi'ch bod wedi rhoi gwybodaeth gywir a chyflawn inni a'ch bod wedi cadw at eich ymrwymiadau.

Bydd gofyn ichi hefyd:

- Roi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am eich contract Grant Busnes i Ffermydd a hynny o fewn y cyfnod a bennir gan Lywodraeth Cymru

- Gofalu bod cofnodion, cyfrifon, derbynebau a gwybodaeth arall, gan gynnwys data ar gyfrifiadur, eich contract Grant Busnes i Ffermydd ar gael i Lywodraeth Cymru, ei swyddogion awdurdodedig a'i hasiantwyr eu gweld. Bydd gofyn ichi ganiatáu i Lywodraeth Cymru gymryd unrhyw ddogfen neu gofnod i wneud copïau neu i godi darnau ohoni/ohono.

# Adran G - Y Drefn Apelio a Chwyno

## Y Drefn Apelio

Mae'r *'Broses Apelio Annibynnol ar gyfer Ffermwyr a Choedwigwyr yng Nghymru'* yn caniatáu ichi ofyn am adolygiad os ydych yn teimlo nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud y penderfyniad cywir yn unol â rheolau'r cynllun. Bydd y broses yn adolygu penderfyniadau sy'n ymwneud â:

- BPS (ac SPS)
- holl gynlluniau Glastir
- problemau a welir ar ôl 1 Ionawr 2007 mewn cysylltiad â:
- Cynllun Coetir Fferm, Cynllun Premiwm Coetir Fferm, Premiwm Tir wedi'i Wella.

Mae'r broses apelio wedi'i rhannu'n ddau gam:

Cam 1: adolygiad gan RPW

Cam 2: adolygiad gan Banel Apelau Annibynnol (os ydych yn anhapus ag ymateb Cam 1).

Mae'r Panel Annibynnol yn gwneud argymhellion i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig sy'n penderfynu'n derfynol ar y mater ac yn dod â'r broses i ben.

Nid oes tâl am gynnal Cam 1 y broses ond mae tâl am gynnal Cam 2 - £50 am wrandawiad ysgrifenedig neu £100 am wrandawiad llafar. Byddwn yn ad-dalu'r costau hyn yn llawn os bydd Cam 2 yr apêl yn llwyddiannus neu'n rhannol lwyddiannus.

Rhaid i apeliadau, gan gynnwys y dystiolaeth, ddod i'n llaw o fewn 60 diwrnod ar ôl dyddiad y llythyr sy'n disgrifio'r penderfyniad rydych am apelio yn ei erbyn.

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg a bydd yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg os mai dyna'ch dymuniad. Ni fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi.

Cewch ragor o wybodaeth am y broses apelio trwy gysylltu â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid neu ar ein gwefan yn https://llyw.cymru/apeliadau-grantiau-a-thaliadau-gwledig

## Y Drefn Gwyno

Byddwn yn ymdrin â'ch cwynion yn unol â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gwynion.
Cewch ragor o wybodaeth ar sut i wneud cwyn trwy gysylltu â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid neu'r Tîm Cynghori ar Gwynion:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 03000 251378
E-bost: complaints@gov.wales

Gallwch ddewis cysylltu hefyd ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:
1 Ffordd yr Hen Gae,
Pen-coed,
CF35 5LJ
Gwefan: https://www.ombwdsmon.cymru/

## Adran H - Hysbysiad Prosesu Teg

Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio sut y bydd Llywodraeth Cymru’n defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi ar ffurflen gais y Grant Busnes i Ffermydd neu unrhyw ddogfen arall a ddefnyddir mewn cysylltiad â’ch datganiad o ddiddordeb i ymuno â chynllun y Grant Busnes i Ffermydd, neu wybodaeth sy’n cael ei chreu neu ei chael o ganlyniad i geisiadau o’r fath. Bydd yn esbonio hefyd sut y bydd Llywodraeth Cymru'n prosesu ac yn defnyddio'ch data personol a'ch hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

Rheolydd data'r wybodaeth a gyflwynir fel rhan o SAF 2018 yw **Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

Swyddog diogelu data'r un wybodaeth yw'r **Swyddog Diogelu Data, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ. E-bost: DataProtectionOfficer@gov.wales**

Bydd Llywodraeth Cymru’n prosesu ac yn rheoli’r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi iddi yn unol â’i hymrwymiadau a’i dyletswyddau o dan y Rheoliadau Ewropeaidd canlynol:

- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1305/2013
- Rheoliad y Cyngor (EU) Rhif 1306/2013
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 640/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 807/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 808/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 809/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 907/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 908/2014
- Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (UE) Rhif 679/2016

Bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio gan fwyaf i brosesu ac asesu’ch Datganiad o Ddiddordeb yn y Grant Busnes i Ffermydd. Ond, caiff Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r wybodaeth hefyd at bwrpasau eraill, a fydd yn cynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau a'i dyletswyddau o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd a'i hymrwymiadau amgylcheddol statudol.

Sail cyfreithlon y gwaith prosesu hwnnw yw bod ei angen er gwneud tasg a wneir wrth arfer yr awdurdod swyddogol a freinir yn Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n casglu data personol i weld eich lleoliad chi a lleoliad eich busnes fferm. Nid yw Llywodraeth Cymru'n casglu data categori arbennig.

Mae'r data'n cael eu prosesu trwy broses awtomataidd o reolau busnes sy'n defnyddio Cyfeirnod y Cwsmer (CRN) fel y brif allwedd ar gyfer mwyafrif yr adroddiadau.

Caiff eich gwybodaeth ei storio yn unol â Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 908/2014, “Conservation of Accounting Information”.

**Rhesymau dros rannu data personol**

Mae deddfwriaeth yr UE yn gofyn am gynnal archwiliadau i wneud yn siŵr fod prosiect yn gymwys ac er mwyn cynnal yr archwiliadau hyn, caiff Llywodraeth Cymru rannu gwybodaeth â:

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Filfeddygol
- Awdurdodau Lleol Cymru
- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
- DEFRA
- Swyddfeydd Amaeth eraill Llywodraeth y DU

Awdurdodau rheoleiddio fel Cyllid a Thollau ei Mawrhydi, Awdurdodau Lleol, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Heddlu

Gallai'r wybodaeth gael ei defnyddio at y dibenion canlynol:

- Trawsgydymffurfio a thrawswirio rhwng cyrff y Llywodraeth i sicrhau na thorrir rheolau cynlluniau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.
- cynhyrchu a chyhoeddi mapiau sy'n dangos y tir sydd wedi cael cymorth cynlluniau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.
- llunio adroddiadau o ddata o wahanol ffynonellau a/neu grynodebau ystadegol, ar gyfer eu cyhoeddi.
- llywio penderfyniadau sy'n gysylltiedig â newid polisi a chyllid gan gynnwys astudiaethau ymchwil a gynhelir ar ran Llywodraeth Cymru i'w helpu i Fonitro a Gwerthuso cynlluniau Datblygu Gwledig.
- gallu cysylltu â thirfeddianwyr / defnyddwyr tir mewn argyfwng, e.e. rheoli clefydau a rheoli tramgwyddau.
- diogelu budd ymgeiswyr mewn cadwraeth tir a materion a all godi yn sgil ymholiadau ynghylch ariannu.
- er mwyn i bartneriaid allu gwneud eu dyletswyddau cyfreithiol.
- ei rhannu ag asiantaethau atal twyll a fydd yn defnyddio'r wybodaeth i atal twyll a gwyngalchu arian ac i gadarnhau pwy ydych.
- cyhoeddi gwybodaeth benodol ac ymateb i geisiadau am wybodaeth.

**Cyhoeddi a Datgelu Gwybodaeth.**

Gall aelod o'r cyhoedd ofyn am gael gweld eich gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ryddhau gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch, wrth ymateb i gais o'r fath.

Yn ôl Rheoliad y Comisiwn (CE) rhif 908/2014, rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi manylion y symiau a dalwyd i fuddiolwyr Polisi Amaethyddol Cyffredin. Cyhoeddir data ar gyfer pob buddiolwr ar wefan y gellir chwilio arni, a bydd yn cynnwys enw a lleoliad y ffermwr/rheolwr tir a manylion y symiau ac enw'r cynllun. Ond, ni ddatgelir enwau'r rheini sy'n cael llai na'r hyn sy'n gyfwerth â €1,250 mewn cymorthdaliadau. Cyhoeddir y data bob blwyddyn ar 31 Mai a bydd y data ar gael am ddwy flynedd o'r dyddiad y cawsant eu cyhoeddi. Bydd yr wybodaeth ar gael ar wefan DEFRA.

**Hawliau o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)**

Mae'r GDPR yn rhoi hawliau i unigolion o ran y data personol a ddelir amdanyn nhw. Mae'r hawliau hynny'n cynnwys:

- yr hawl i gael gwybod (yr hysbysiad hwn)
- yr hawl i ofyn a chael copïau o'r data personol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanynt, er y gall Llywodraeth Cymru wrthod gwneud hynny weithiau
- yr hawl o dan rai amgylchiadau i atal neu ffrwyno gwaith prosesu data personol Llywodraeth Cymru
- yr hawl, mewn amgylchiadau penodol, i ofyn am gywiro gwybodaeth anghywir
- yr hawl o dan rai amgylchiadau i gael data wedi'u dileu (neu eu hanghofio).

Os hoffech arfer eich hawliau o dan y GDPR, dylech gysylltu â Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad a roddir ar ddechrau'r hysbysiad hwn.

Bydd hawl gan unigolion hefyd i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn cadw golwg ar y GDPR, farnu a fyddwn, wrth brosesu'ch gwybodaeth bersonol, yn debygol o gadw at amodau'r GDPR.  Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 or 0303 123 1113
Gwefan: www.ico.org.uk

# Cysylltiadau

### RPW Ar-lein

Gallwch fynd at wasanaethau RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth yn www.gateway.gov.uk, neu ar ôl ichi gofrestru ar gyfer gwasanaethau RPW Ar-lein, ewch i www.llyw.cymru/RPWArlein.  Os nad ydych wedi cofrestru eto ag RPW Ar-lein, ewch i wefan Llywodraeth Cymru am wybodaeth ar sut i gofrestru neu ffoniwch Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

### Ymholiadau - y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Ar gyfer eich holl ymholiadau, cysylltwch â'r **Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid**.

Gallwch ofyn cwestiwn unrhyw bryd ar RPW Ar-lein unrhyw bryd.

### Mynediad at swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ag anableddau neu anghenion arbennig

Os oes gennych anghenion arbennig a'ch bod yn teimlo nad yw ein cyfleusterau yn ateb y gofynion, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 i gael swyddogion Llywodraeth Cymru wneud trefniadau addas ar eich cyfer.

### Gwefan Llywodraeth Cymru

I weld yr wybodaeth ddiweddaraf am amaethyddiaeth a materion gwledig, ewch i wefan Llywodraeth Cymru. Bydd cyfle ichi gofrestru arni am y daflen e-newyddion, Gwlad.